BE' YDI UFFERN? MAN ARTAITH TANLLYD?

Nodyn i'r siaradwr:
Pwysleisiwch fod Jehofah, Duw cariad, wedi'i gwneud hi'n bosib' i'r ddynoliaeth ufudd adennill y berthynas dda ag ef. Peidiwch â bychanu athrawiaethau artaith tragwyddol; yn hytrach, apeliwch yn gynnes at y gynulleidfa gan eu helpu i ymresymu ar y ddysgeidiaeth eglur sydd yn y Beibl

PAM MAE HI'N IAWN INNI DDANGOS CONSÝRN YNGLŶN AG UFFERN (3 mun.)

Mae'r hyn 'rydym ni'n ei gredu am uffern yn effeithio ar ein hagwedd at Dduw a'n perthynas ni ag ef

Mae o ddiddordeb, i'r Pab John Paul II yn 1999, ddweud am y gair "uffern" ei fod yn cyfeirio nid at le, ond at "gyflwr y rhai sy'n eu gwahanu eu hunain yn fwriadol oddi wrth Dduw" (*g*00 3/8 29)

Er hynny, mae llawer ym Myd Cred a'r tu allan yn credu mai lle ydi uffern lle caiff y drygionus eu cosbi'n dragwyddol, ac yn ôl rhai, eu harteithio â thân (*rs* 169)

Efallai fod y rhai sy'n credu felly yn gwasanaethu Duw oherwydd ofn afiach yn hytrach nag allan o gariad (1Ioan 4:18, 19)

Mi all credu fel hyn effeithio er drwg ar ein dymuniad i nesáu at Dduw (Iago 4:8)

Er mwyn gwybod yr hyn sy'n wir am uffern, mae gofyn inni ateb y cwestiynau canlynol:

Be' 'di cyflwr y meirw?

Be' 'di uffern, a pham mae 'na gymaint o ddryswch ynglŷn â hi?

Pa obaith sy' 'na i'r rhai sydd yn uffern?

BE' 'DI CYFLWR Y MEIRW? (5 mun.)

'Doedd yr Hebreaid gynt ddim yn credu fod person yn ymwybodol ar ôl iddo farw

Yn hytrach, 'roedden' nhw'n credu fod marwolaeth yn rhoi terfyn ar bob gweithrediad bywyd (Salm 146:4; Preg 9:5, 10; *rs* 98)

Dychwelyd i gyflwr anfodolaeth oedd cosb Adda pan bechodd, nid artaith dragwyddol (Gen 2:17; 3:19)

Pan mae person yn marw, 'does 'na ddim enaid di-gorff yn ymadael i fynd i ryw danddaearolion leoedd

Yn hytrach, yr hyn mae'r Beibl yn ei ddysgu ydi fod yr enaid, y person, yn marw—mor syml â hynny (Eseia 53:12; Esec 18:4)

BE' 'DI UFFERN? (5 mun.)

Mae llawer cyfieithiad o'r Beibl yn defnyddio "uffern" i gyfieithu'r gair Hebraeg *She'ol* a'r gair Groeg *Ha'des* (*it*-1 1086; *it*-2 922)

Yn ôl *A Compendious Hebrew Lexicon* "derbynfa gyffredinol ar gyfer y meirw neu ardal y meirw" ydi Sheol (*it*-2 922)

Felly, bedd cyffredin dynoliaeth ydi uffern, nid lle artaith danllyd (*it*-1 1016)

Oherwydd i Adda bechu, mi fyddai ei epil yn mynd i uffern y Beibl, bedd cyffredin dynoliaeth, lle nad oes bywyd nac ymwybod (Rhuf 5:12)

Gan mai'r bedd ydi uffern, mae'r drygionus a'r cyfiawn yn mynd yno adeg marwolaeth (Gen 37:35; Job 14:13; Actau 2:25-27)

PAM MAE 'NA DDRYSWCH YNGLŶN AG UFFERN? (17 mun.)

Paganiaid cyn cyfnod Crist roddodd gychwyn i'r syniad o artaith wedi marwolaeth (*rs* 175)

Mae 'na dystiolaeth fod crefydd Yr Aifft yn yr hen amser yn dysgu am uffern danllyd

Mae 'na ddarlunio tanddaearolion leoedd mythegol yn llawn dychrynfeydd yng nghredoau'r Babiloniaid a'r Asyriaid gynt

Cyn belled yn ôl â'r chweched ganrif C.C.C. 'roedd Bwdaeth yn dysgu fod 'na uffern oer yn ogystal ag un boeth

Onid ydi'r Beibl yn sôn am "dân uffern"? (Math 5:22; *rs* 173)

Mae'r Ysgrythurau Cristnogol Groeg yn cyfeirio 12 gwaith at Gehenna, gan gysylltu'r gair â thân yn aml

Er enghraifft, soniodd Iesu am daflu'r "corff cyfan" i uffern (Math 5:29, 30, troednodyn, "Gehenna," *Y Beibl Cyssegr-Lan,* 1908)

Rhybuddiodd ei ganlynwyr i ofni'r "hwn syn gallu dinistrio'r enaid a'r corff yn uffern" (Mt 10:28, "Gehenna," troednodyn. *BCLan,* 1908)

Tu allan i furiau Jerwsalem 'roedd Dyffryn Hinnom (Gehenna) lle 'roedd ffiaidd addoli delwau yn digwydd, a hynny'n cynnwys aberthu plant

Erbyn y ganrif gynta' C.C., 'roedd Gehenna yn cael ei ddefnyddio fel lle i losgi gwastraff Jerwsalem, gan gynnwys hyd yn oed gyrff marw anifeiliaid a drwg weithredwyr wedi'u dienyddio

Gan nad oedd bodau dynol byw yn cael eu rhoi yno, nid lle artaith danllyd ydi Gehenna, ond symbol addas o ddifa tragwyddol

Onid ydi'r Beibl yn sôn am "boenydio mewn tân a brwmstan"? (Dat 14:9-11; 20:10)

Gan nad ydi'r meirw'n ymwybodol, mae'n rhaid mai symbol ydi hyn

Yn y Beibl, mae 'poenydio' yn medru golygu cywilydd, yn dilyn datguddio rhywbeth (Dat 11:10; *rs* 172-3)

No. 128-W 8/00 Printed in Britain

Mae dameg Iesu am y dyn cyfoethog “mewn poen arteithiol” yn Nhrigfan y Meirw (“uffern,” *BCL*; “Hades,” troednodyn, *BCLan*, 1908) yn achosi dryswch meddwl i eraill (Luc 16:23)

Ydi’r hanes hwn yn un llythrennol, neu ai darlunio rhywbeth arall y mae e efallai?

Mewn troednodyn, mae *The Jerusalem Bible* yn cydnabod mai “dameg ydyw ar ffurf stori heb fod ynddi gyfeiriad at unrhyw berson hanesyddol” (*rs* 174)

Beth mae’r ddameg yn ei ddarlunio? (*rs* 175)

Cynrychioli’r Phariseaid mae’r dyn cyfoethog (Luc 16:14, 22)

Cynrychioli’r Iddewon cyffredin oedd wedi edifarhau a dod yn ganlynwyr Iesu mae Lasarus (Math 21:28-32)

Symbol o newid amgylchiadau ydi’r marwolaethau (Luc 16:16)

’Roedd rhai oedd gynt wedi cael eu diystyru ’nawr yn derbyn ffafr ddwyfol

’Roedd rhai oedd yn ymddangos fel pe baent yn cael ffafr yn cael eu gwrthod gan Dduw a’u poenydio gan y negeseuon barn oedd yn cael eu cyhoeddi gan y rhai ’roedden’ nhw gynt yn eu casáu (Actau 5:33; 7:54)

’Dyw cyfieithwyr y Beibl ddim wedi bod yn gyson wrth gyfieithu Sheol a Hades, yn hytrach maen’ nhw wedi caniatáu i’w credoau personol liwio’u gwaith (*rs* 170-1; *it*-1 1086-7)

Mae gwreiddiau’r athrawiaeth am dân uffern—athrawiaeth sy’n amharchu Duw—yn mynd yn ddyfnach na syniadau dynol (*rs* 175)

Mae Satan y Diafol, y galwodd Iesu e’n “dad pob celwydd,” yn cynllwynio i enllibio Duw cariad, gan ei ddarlunio’n Dduw creulon a dialgar (Ioan 8:44)

OES ’NA OBAITH I’R RHAI SYDD YN UFFERN? (12 mun.)

’Dyw athrawiaeth artaith dragwyddol ddim yn gyson â phersonoliaeth Duw (Jer 7:31; *rs* 174)

Cosb am bechod ydi marwolaeth (Rhuf 6:23)

Gan fod marwolaeth yn rhyddhau dyn oddi wrth bechod, fyddai cyfiawnder Duw ddim yn caniatáu iddo ychwanegu artaith dragwyddol (Deut 32:4; Rhuf 6:7)

Bydd barn Duw ar ddynoliaeth yn digwydd adeg y prawf terfynol wedi Teyrnasiad Mil Blynyddoedd Iesu Grist (Dat 20:7-9, 12, 13; *rs* 338)

Mi fydd Jehofah, Duw cariad, yn dadwneud holl ofidiau’r gorffennol (Heb 2:14; *rs* 396; *dg* 27-8)

Fe fydd y rhai sydd yn uffern yn cael eu rhyddhau, ac felly fe fydd difa ar Sheol (Hades) a’r angau Adamaidd (Dat 20:13-15; *it*-2 923)

Wrth i’r rhai sydd ym medd cyffredin dynoliaeth gael eu hatgyfodi i’r ddaear fe gân’ nhw brofi buddion iachaol teyrnasu Iesu

Fe gân’ nhw ddysgu’r gwirionedd a chael cyfle i fyw am byth ym Mharadwys (Luc 23:43; Actau 24:15)

Bydd y ddaear yn Baradwys, fel y bwriadwyd iddi fod o’r cychwyn (Gen 1:28; *rs* 285)

Fe gaiff Satan, ei gythreuliaid, a phawb sy’n fwriadol wrthryfela, eu difa am byth (Dat 20:7-10)

BE’ SY’N RHAID INNI EI WNEUD? (3 mun.)

Mae Duw wedi caniatáu i fodau dynol dystio mai Duw cariad ydi e nid Duw artaith (*jv* 10-12)

Mae Jehofah wedi estyn y fraint inni o ddod yn Dystion iddo

Mae gofyn i’r rhai sy’n gaeth i’r athrawiaeth fod artaith yn dilyn marw, glosio at Dduw a chanlyn ei Fab (Math 28:19, 20)

Dyna sut y daw rhyddid iddyn’ nhw oddi wrth y ddysgeidiaeth honno sy’n dianrhydeddu Duw, ac sy’n dweud fod Jehofah yn arteithio’r meirw a hwythau wedi’u rhyddhau oddi wrth eu pechodau gan angau

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser a nodir ar gyfer bob adran. ’Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir, na gwneud sylwadau arnyn’ nhw)